Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bynea
# Heol Saron
# Bynea
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 9LT

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bynea ym mhentref Bynea ger Llanelli. Mae'r ysgol wedi tyfu'n gyflym dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae 153 o ddisgyblion tair i un ar ddeg oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae chwech o ddosbarthiadau, bob un ohonynt yn ddosbarthiadau oedrannau cymysg. Mae safle'r ysgol yn cynnwys gwasanaeth sipsiwn teithwyr a chyfleuster Dechrau'n Deg a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae rhyw 32% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 44% o ddisgyblion, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lleiafrifol ethnig, yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n siarad Cymraeg gartref.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn Ebrill 2009. Ym Mai 2010 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bynea yn 2016-2017 yw £3,612. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,689 a'r lleiafswm yw £3,083. Mae Ysgol Gynradd Bynea yn safle 50 o'r 100 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- Bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf a bod tua hanner yn gwneud cynnydd uwch na'r disgwyl o gymharu â'u man cychwyn, yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Ychydig iawn o wahaniaeth yng nghyrhaeddiad a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â disgyblion eraill
- Medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol a'u bod yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn ystod o waith ysgogol a chyffrous ar draws y cwricwlwm
- Bron pob un o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'u targedau personol
- Disgyblion sy'n fwy abl yn cyflawni'n uchel ac yn cyflawni eu potensial
- Ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn
- Medrau cymdeithasol a medrau bywyd datblygedig gan lawer o ddisgyblion
- Yr ysgol yn darparu ystod ragorol o brofiadau dysgu difyr sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl yn llwyddiannus, gan eu galluogi i wneud cynnydd cyflym yn eu dysgu ac wrth ddatblygu'u medrau
- Yr addysgu yn dda o leiaf, ac yn rhagorol yn aml
- Ansawdd uchel marcio ac asesu athrawon yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion
- Yr ysgol yn gymuned ddiogel, anogol a chynhwysol sy'n cefnogi lles disgyblion yn effeithiol iawn
- Y pentref dysgu newydd yn gyfleuster rhagorol sy'n cefnogi ac yn gwella dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion ac yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol iawn

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- Y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol iawn a llawn gweledigaeth i dîm cefnogol a brwdfrydig
- Y gallu gan y corff llywodraethol profiadol i reoli newid yn effeithiol iawn a'i fod yn herio'r ysgol yn dda i wella ei pherfformiad
- Staff yn ymateb yn eithriadol o dda i anghenion newidiol yr ysgol ac yn addasu'n effeithiol i addasiadau yn eu rolau a'u cyfrifoldebau
- Arweinwyr yr ysgol wedi cyflwyno ac ymgorffori gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu cwricwlwm difyr iawn a chreadigol

- Arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu perfformiad yr ysgol yn gywir
- Targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n agos â chanlyniadau hunanarfarnu
- Blaenoriaethau datblygu blaenorol yn effeithiol o ran sicrhau gwelliannau, fel yn ansawdd ysgrifennu disgyblion mewn gwersi llythrennedd ac mewn gwaith ar draws y cwricwlwm
- Yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn i ymateb i'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf, ac yn arbennig i systemau ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn gywir
- Y bartneriaeth rhwng yr ysgol, rhieni, yr ysgol uwchradd a busnesau lleol yn rhagorol a'i bod yn gwella ansawdd profiadau dysgu yn effeithiol
- Arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gyllid sydd ar gael i gefnogi blaenoriaethau cytûn ar gyfer datblygu

## Argymhellion

A1 Gwella hyder llafar disgyblion y tu allan i wersi Cymraeg cynlluniedig

A2 Parhau i adeiladu ar strategaethau presennol i wella presenoldeb ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae dros hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sydd islaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf, ac mae tua hanner yn gwneud cynnydd uwch na'r disgwyl o'u man cychwyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth yn frwdfrydig er mwyn caffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyflym yn eu dysgu ac wrth ddatblygu medrau.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd eithriadol o dda. Gwnânt gynnydd gwerthfawr iawn yn erbyn eu targedau personol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob disgybl sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da iawn ac yn cyflawni gystal â'u cyfoedion o leiaf. Ledled yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwrando'n barchus ac yn astud iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion iau yn datblygu'r gallu i siarad yn glir yn gyflym, ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus ag oedolion a chyfoedion. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n huawdl. Defnyddiant eirfa soffistigedig yn eu sgyrsiau, er enghraifft 'Rwy'n myfyrio ynghylch pa offer fyddai'n fwyaf priodol ("I am contemplating which apparatus would be most appropriate") wrth gynnal arbrawf gwyddonol.

Mae safonau darllen yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion iau yn darllen yn dda am eu hoedran a'u gallu, ac yn gwneud cynnydd cyflym wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn rhoi ystyriaeth dda i atalnodi, sy'n eu helpu i ddarllen gyda mynegiant a dealltwriaeth. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn darllen yn rhugl ac yn gywir o ystod eang o ddeunydd darllen. Mae'r rhai mwyaf abl yn defnyddio'u medrau casgliadol yn effeithiol i edrych y tu hwnt i'r testun. Cynigiant sylwadau aeddfed ynglŷn â hwyliau a chymhellion y cymeriadau yn y llyfr.

Mae safonau ysgrifennu yn datblygu'n dda iawn ar draws yr ysgol ac mae bron pob disgybl yn trosglwyddo'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus iawn ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn ac yn cyflwyno'u gwaith yn ddestlus gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o eirfa ddychmygus i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu, er enghraifft 'hudolus a swynol ("enchanting and magical") wrth ddisgrifio llwybr drwy goedwig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio ystod o genres yn llwyddiannus iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu mewn paragraffau ac yn addasu arddull a chynnwys eu hysgrifennu yn effeithiol i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol. Mae disgyblion mwy abl yn cyfleu teimlad ac empathi yn llwyddiannus yn eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr at y bwrdd glo lleol fel rhiant mewn profedigaeth yn dilyn trychineb Aberfan.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u medrau rhif yn dda iawn mewn gwersi mathemateg ac ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn categoreiddio gwrthrychau ar fuarth fferm yn llwyddiannus gan ddefnyddio diagram Venn, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn amcangyfrif pwysau yn gywir ac yn eu gwirio gan ddefnyddio mesurau safonol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod eang o strategaethau yn llwyddiannus iawn i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gyfrifo'r hylifau sydd eu hangen i baratoi diod hud.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu i safon uchel. Mae medrau cyfrifiannu rhagorol gan lawer o ddisgyblion iau. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am werth lle ac yn adio a thynnu rhifau pedwar digid yn hyderus. Mae eu medrau trin data yn datblygu'n dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o ffurf a gofod. Mae medrau mathemategol nodedig gan lawer o ddisgyblion hŷn. Maent yn deall y berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau, yn lluosi rhifau dau a thri digid, yn mesur onglau ac yn cyfrifo cyfaint yn gywir. Mae bron pob disgybl yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn fedrus iawn ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Maent yn cofnodi'u canfyddiadau yn rhesymegol ac yn systematig, ac yn esbonio'u hymresymu yn groyw, er enghraifft wrth drafod eu cyfrifiadau cyllidebol yn y cynlluniau ar gyfer y pentref dysgu.

Mae medrau TGCh disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o offer TGCh yn fedrus i greu ac arddangos eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio gyda hyder ac yn cyflwyno'u gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o dechnegau i greu cyflwyniadau amlgyfrwng. Mae disgyblion hŷn yn creu ac yn trin cronfeydd data'n effeithiol, er enghraifft i greu ffeil ffeithiau am y boblogaeth, lleoliad a'r tywydd mewn gwledydd eraill. Ledled yr ysgol, mae dealltwriaeth dda gan bron pob disgybl o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg gan bron pob disgybl, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio patrymau iaith sylfaenol yn dda yn ystod gweithgareddau ffurfiol. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau sylfaenol amdanynt eu hunain a'u cartref. Maent yn ysgrifennu darnau byr am destunau cyfarwydd, fel disgrifio pryd o fwyd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi mewn sgyrsiau syml gyda disgyblion eraill ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u gwybodaeth am gystrawen a geirfa Gymraeg i ysgrifennu'n llwyddiannus am ystod o bynciau fel eu gwyliau. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen gyda hyder a mynegiant o amrywiaeth o destunau addas, ac yn ateb cwestiynau syml yn gywir ynglŷn â'r stori. Fodd bynnag, nid ydynt yn dangos yr un hyder wrth siarad Cymraeg y tu allan i'w gwersi. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y lefel ddisgwyliedig wedi gwella'n gynyddol dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O ran y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion yn y ddau faes dysgu yn amrywio, ac nid oes unrhyw duedd gyffredinol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos tuedd gyffredinol o wella dros gyfnod o bedair blynedd. Yn 2106, fe wnaeth perfformiad osod yr ysgol

yn y 25% uchaf yn y tri phwnc o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r niferoedd bach o ddisgyblion mewn rhai grwpiau blwyddyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu perfformiad meincnod yr ysgol yn gywir yn erbyn perfformiad ysgolion tebyg.

**Lles: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chefnogol lle mae bron pob disgybl yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn sicr yn yr ysgol ac maent yn barod i rannu unrhyw bryderon gyda staff yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rheoli eu hymddygiad eu hunain yn llwyddiannus iawn.

Mae bron pob disgybl yn ymgysylltiedig iawn ac yn llawn cymhelliant mewn gwersi, gan ddangos dyfalbarhad a chanolbwyntio. Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn gwybod bod eu barnau yn bwysig. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn rhedeg y Siop Ffrwythau, yn archebu stoc ac yn rheoli'r cyfrifon yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu medrau bywyd hanfodol fel cyllidebu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n iach drwy wneud ymarfer corff a bwyta'n synhwyrol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu ystod eang o weithgareddau ar ôl ysgol poblogaidd iawn, gan gynnwys pêl-droed, gymnasteg a dawns sy'n ymestyn eu dealltwriaeth o faterion yn gysylltiedig ag iechyd yn llwyddiannus.

Mae cyngor yr ysgol, y pwyllgor eco ac yn arbennig, y pwyllgor adeiladau, yn cyfrannu'n helaeth at benderfyniadau, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, gweithiodd disgyblion yn agos ag asiantaethau allanol i ail-ddylunio'r ardaloedd parcio y tu allan i gatiau'r ysgol ac i ddatblygu'r pentref dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwerthfawr iawn o'r byd gwaith, ac mae ganddynt fedrau entrepreneuraidd nodedig.

Mae natur amrywiol y boblogaeth disgyblion yn effeithio'n nodedig ar lefelau presenoldeb cyffredinol. Pan dynnir presenoldeb grŵp penodol o'r data, mae presenoldeb disgyblion yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Mae nifer o fentrau gwerthfawr sy'n cael eu harwain gan blant, fel gwobrau a mynediad i raffl fawr, yn sicrhau bod bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod ragorol o brofiadau dysgu cyffrous ac arloesol sy'n cyfateb i anghenion yr holl ddysgwyr yn eithriadol o dda. Mae hyn yn galluogi pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, i gyflawni'n uchel a gwneud cynnydd cyflym yn eu dysgu. Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n drwyadl eithriadol ac mae'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth flaenorol disgyblion. Mae'r defnydd dychmygus o gyfleusterau yn yr ystafell ddosbarth a'r man awyr agored, ac yn benodol, y defnydd helaeth o'r pentref dysgu, yn darparu llawer o gyfleoedd cyffrous i

bron pob disgybl ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu ac ehangu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus iawn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn rhan annatod o'r holl gynlluniau gwersi. Ceir llawer o gyfleoedd dychmygus o ansawdd uchel i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn sy'n berthnasol ac yn ysbrydoli. Er enghraifft, fel rhan o brosiect ar y fferm yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion ifanc yn datblygu'u medrau echddygol manwl drwy 'odro' buwch fodel â chadair maneg rwber binc i gynwysyddion siâp can llaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llythyr â selnod cŵyr a ddosbarthwyd yn ddefodol o 'Dŷ'r Arglwyddi' yn ysbrydoli'r disgyblion i ystyried ffyrdd effeithiol o ddatblygu a gwella eu cymuned leol. Mae'r ysgol yn rhannu'r arfer gadarn iawn hon gydag ysgolion eraill.

Caiff pob disgybl gyfleoedd helaeth i fod yn rhan o gynllunio eu dysgu eu hunain, er enghraifft datblygu eu themâu prosiect ar y cyd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn llawn cymhelliant ac yn gwneud cynnydd da iawn. Cânt gyfleoedd estynedig i ddatblygu'u dysgu drwy ystod eang o glybiau fel clybiau celf a chyfrifiadura, ac ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol.

O ganlyniad i ymrwymiad cadarn yr ysgol i'r Gymraeg, mae disgyblion yn mwynhau rhaglen systematig a diddorol o addysg Gymraeg sy'n eu herio'n gyson. Mae'r trefniadau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn agwedd gadarn ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio ochr yn ochr â chymdeithas hanes leol i gynhyrchu 'App Bynea' i gefnogi'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o weithgareddau ystyrlon a heriol i gynyddu ymwybyddiaeth fyd-eang disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliad â chanolfan puro dŵr leol yn gwella eu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan blant mewn gwledydd trydydd byd. Mae'r pwyllgor eco yn frwdfrydig ynghylch hyrwyddo ac ymarfer cadwraeth ynni ac ailgylchu papur.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae pob un o'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau ffocysedig a hynod greadigol sy'n cyfateb i anghenion pob disgybl yn llwyddiannus iawn. Defnyddiant ystod eang o adnoddau dychmygus ac arloesol i ddarparu profiadau dysgu sy'n ysgogi disgyblion o bob gallu i gynhyrchu eu gwaith gorau. Mae athrawon a staff cymorth yn fodelau rôl rhagorol. Maent yn gwybod beth yw galluoedd eu disgyblion yn dda iawn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Gofynnir cwestiynau perthnasol a threiddgar yn effeithiol gan bob athro i annog a chymell disgyblion ac i wirio cynnydd yn fedrus yn erbyn yr amcanion gwersi clir. Ym mhob dosbarth, mae ethos o feddwl yn gadarnhaol, parch gan y naill at y llall a gwaith tîm yn helpu creu amgylchedd gweithio pwrpasol a ffocysedig. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gweithio'n frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da iawn mewn perthynas â'u gallu.

Mae pob athro yn marcio gwaith disgyblion yn effeithiol a chyson, gan ddefnyddio strategaethau marcio cytûn ac wedi'u hymgorffori. Maent yn rhoi llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain ac i ymateb i'r sylwadau gan

athrawon a'u cyfoedion. Mae pob athro yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn gan ddefnyddio system olrhain fanwl. Defnyddiant y wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio profiadau dysgu heriol a chyfoethog sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn arwain at welliannau yng ngwaith bron pob disgybl.

Mae adroddiadau blynyddol ac ymgynghoriadau bob tymor gydag athrawon yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am bresenoldeb a chynnydd eu plentyn, a beth allant ei wneud er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol. Mae'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn drwy'r profiadau cyfoethog y mae'n eu darparu. Mae gwasanaethau wedi'u cynllunio'n dda yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio'n briodol ar y byd o'u hamgylch.

Mae ystod eang o weithdrefnau yn cyfrannu'n dda at iechyd, lles a chyrhaeddiad disgyblion. Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol. Mae staff yn nodi'r disgyblion hyn yn gynnar ac yn darparu cynlluniau addysg unigol sy'n benodol ac yn adeiladu'n systematig iawn ar anghenion y disgyblion. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd disgyblion unigol a gwybodaeth asesu fanwl yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu ac wrth ddatblygu medrau mewn perthynas â'u targedau cytûn a'u galluoedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhwydwaith cynhwysfawr o asiantaethau arbenigol, fel swyddog cyswllt yr heddlu a'r gwasanaeth cwnsela i gefnogi dysgu a lles y disgyblion yn sensitif ac yn llwyddiannus iawn.

Caiff presenoldeb rheolaidd ei hyrwyddo'n drwyadl. Mae staff yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymwybodol iawn o oblygiadau addysgol a chymdeithasol absenoldeb trwy gylchlythyrau rheolaidd a system wobrwyo unigol. Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiflino gyda'r swyddog lles addysg i sicrhau yr eir i'r afael â phresenoldeb disgyblion ag anghenion penodol. O ganlyniad, mae presenoldeb y disgyblion hyn wedi dangos gwelliant yn ddiweddar.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Bynea yn ysgol eithriadol o hapus a chroesawgar a chanddi ethos cadarnhaol a chynhwysol. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ei disgrifio fel 'teulu' lle caiff pawb eu gwerthfawrogi. Mae pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu pob unigolyn yn ymgorffori pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r amgylchedd gofalgar ac anogol hwn yn galluogi disgyblion o bob gallu a chefndir i ffynnu a gwneud cynnydd cadarn.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da iawn. Mae'r ystafelloedd agored mawr yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol, deniadol a gynhelir yn dda i ddisgyblion.

Ceir ystod helaeth o adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol iawn. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae'r amgylchedd awyr agored helaeth yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyffrous ar gyfer dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys yr ysgol goedwig eithriadol, yr ardaloedd sylfaen amrywiol a'r ardaloedd glaswellt a'r caeau chwaraeon a gynhelir yn dda. Mae'r pentref dysgu newydd yn gyfleuster rhagorol sy'n cefnogi ac yn gwella'r dysgu ar gyfer pob disgybl, ac yn datblygu'u medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae gweithfannau penodol yn galluogi disgyblion i wneud mwy o ddewisiadau ynglŷn â beth a sut maent yn dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi llywio'r ysgol yn eithriadol o dda trwy gyfnod o gryn newid ers yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn cynnwys niferoedd disgyblion yn gostwng, salwch difrifol ymhlith y staff a Chanolfan Ddysgu Bynea yn cau. Er gwaetha'r heriau hyn, maent wedi cynnal gweledigaeth glir iawn o ddarparu cwricwlwm cyfoethog, eang a chytbwys ac maent wedi arwain yr ysgol i sefyllfa o fod â chryfderau lluosog. Mae'r rhain yn cynnwys addysgu o ansawdd uchel yn gyson, amgylchedd dysgu ysgogol a safonau sy'n gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r arweinyddiaeth hon o ansawdd uchel yn golygu bod yr ysgol yn lle croesawgar, gofalgar a chyffrous i ddysgu a lle mae bron pob disgybl yn cyflawni'u potensial llawn o ran y safonau a gyflawnir ganddynt a'u lefelau lles uchel.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol mewn modd dynamig ac ystyriol iawn. Ceir ysbryd tîm eithriadol o gryf. Caiff polisïau eu gweithredu'n gyson a chynhelir disgwyliadau uchel ar bob lefel. Er enghraifft, mae'r holl staff yn cynnal egwyddor yr ysgol y dylai dysgu gael ei 'werthfawrogi, ei fwynhau, dylai fod yn gefnogol a gydol oes'. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol iawn yn cefnogi ac yn herio'r holl staff i gynnal safonau uchel ac ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau sy'n adlewyrchu anghenion newidiol yr ysgol, er enghraifft ailddosbarthu cyfrifoldebau allweddol yn ystod absenoldeb hir uwch aelod o staff.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyflawni'u dyletswyddau statudol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Gofynnant gwestiynau heriol yn gyson, er enghraifft ynghylch safonau ysgrifennu, er mwyn sicrhau bod y rhain yn dod yn flaenoriaeth uchel i'w gwella. Maent yn ymweld â dosbarthiadau'n rheolaidd i fonitro profiadau dysgu, ac maent yn wybodus ynglŷn â bywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn talu sylw rhagorol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae uwch arweinwyr wedi chwarae rhan bwysig yn agor y feithrinfa ochr yn ochr â chylch chwarae Dechrau'n Deg; mae'r ddau ohonynt wedi helpu'r ysgol i dyfu. Mae

gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ganolog i'r cynlluniau cwricwlwm o ansawdd uchel. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i gymhwyso a datblygu'u medrau yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn ysgogol. Er enghraifft, mae cystadleuaeth Strictly Come Dancing yn yr ysgol yn darparu cyfle gwerthfawr i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ddatblygu'u medrau llefaredd.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eithriadol o gywir. Defnyddiant ystod nodedig o dystiolaeth sy'n rhoi ystyriaeth dda iawn i ffynonellau uniongyrchol, gan gynnwys dadansoddi data perfformiad a barnau rhieni a disgyblion. Mae pwyllgor adeiladau'r disgyblion, er enghraifft, yn darparu adborth craff ar gostiadau a datblygiadau cynlluniedig y pentref dysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon i bennu blaenoriaethau clir i wella bywyd yr ysgol.

Er gwaethaf heriau mawr, mae uwch arweinwyr wedi gwella ansawdd y ddarpariaeth yn nodedig dros y blynyddoedd diwethaf. Maent yn cynnwys pob aelod o staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn llawn, ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau at arfarniad yr ysgol. Er enghraifft, ceir systemau cynhwysol iawn ar gyfer arsylwadau o wersi ac adolygu gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae staff yn rhannu dealltwriaeth gyson o'r hyn a ddisgwylir ledled yr ysgol.

Caiff cryfderau addysgu eu rhannu'n rheolaidd o fewn yr ysgol a thu hwnt. Mae arsylwadau o wersi ar y cyd wedi arwain at fabwysiadu strategaethau newydd yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft y defnydd o recordwyr llais i roi cyfarwyddiadau i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae disgyblion iau yn fwy annibynnol yn eu dysgu. Mae'r arfer ragorol ac arloesol yn y Cyfnod Sylfaen yn cael ei rhannu'n eang gydag ysgolion eraill yn y consortiwm er mwyn lledaenu arfer orau.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl iawn ac yn gywir. Mae'n cysylltu'n agos â chynllun datblygu'r ysgol, sy'n cynnwys blaenoriaethau clir a chamau gweithredu â graddfeydd amser realistig i'w cwblhau. Mae'r ysgol yn adolygu cynnydd yn drwyadl yn erbyn cyflawni blaenoriaethau blaenorol, fel rhoi cwricwlwm mwy creadigol ar waith yn llwyddiannus. Mae arweinwyr wedi mynd i'r afael yn effeithiol iawn ag argymhellion o'r arolygiad diwethaf, er enghraifft wrth sicrhau bod monitro addysgu a dysgu yn rhoi ffocws cryfach o lawer ar safonau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos iawn ag ystod eang o bartneriaid yn cynnwys gwasanaethau cymorth arbenigol, fel y Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r partneriaethau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at ddysgu a lles disgyblion, yn ogystal â datblygiad proffesiynol athrawon.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn rhagorol. Mae staff yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i rieni trwy gylchlythyrau rheolaidd, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol am gynnydd eu plant a bywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae rhieni yn teimlo'n hyderus i fynd at y staff lle bo angen, ac maent yn teimlo bod croeso iddynt gyfrannu at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio medrau rhieni i gefnogi dysgu'r

disgyblion drwy eu cynnwys mewn prosiectau dosbarth a mentrau ysgol gyfan fel y cynllun ehangu'r ffordd. O ganlyniad, mae mwy o le parcio ar gael ac mae llwybrau lletach yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cerdded i'r ysgol yn ddiogel.

Mae cysylltiadau effeithiol iawn gan yr ysgol â busnesau lleol. Caiff y rhain ddylanwad arbennig o gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd ac entrepreneuraidd yn effeithiol iawn drwy weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol i baratoi cynlluniau, dadansoddi cyllidebau a chymharu cwotâu wrth ddatblygu'r pentref dysgu. Mae ymwelwyr o fusnesau lleol yn cyfoethogi profiadau dysgu mwy fyth. Er enghraifft, mae ymweliadau gan beiriannydd lleol yn datblygu medrau disgyblion mewn gwyddoniaeth ac yn cynyddu'u gwybodaeth am y byd gwaith yn bwrpasol iawn.

Mae partneriaeth agos gyda'r ddarpariaeth 'Dechrau'n Deg' ar y safle yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Yn yr un modd, ceir trefniadau effeithiol iawn gydag ysgolion uwchradd lleol. Mae athrawon uwchradd yn ymweld â'r ysgol i rannu'u harbenigedd, er enghraifft, mewn Sbaeneg a Chymraeg. Mae hyn yn ehangu darpariaeth a dysgu disgyblion, ac yn hwyluso'r pontio i'w cyfnod dysgu nesaf.

Mae arweinwyr yn effeithiol iawn yn ceisio dod o hyd i bartneriaethau wedi'u teilwra sy'n ymestyn dysgu disgyblion unigol. Er enghraifft, mae partneriaeth gydag ysgol uwchradd leol wedi galluogi grŵp o fathemategwyr mwy abl a thalentog o Flwyddyn 5 i ennill cymhwyster mynediad Sgiliau Hanfodol (TGAU).

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd medrus iawn o staff ac adnoddau eraill. Yn benodol, mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol iawn ac, o ganlyniad, maent yn gwneud cyfraniad eithriadol at ddysgu a lles disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth a thu hwnt. Maent yn gweithio'n agos gydag athrawon i ysgogi mwynhad disgyblion o'u dysgu ac i sicrhau eu bod yn cyflawni safonau uchel.

Mae pob un o'r staff yn elwa o hyfforddiant proffesiynol rheolaidd a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon sydd wedi ymgymryd â chynlluniau sabothol yn modelu'u medrau cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn dod yn fwy sicr yn eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth.

Yn ystod cyfnod o newid helaeth, mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi rheoli cyllid yr ysgol yn eithriadol o dda ac wedi sicrhau bod adnoddau'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol, er enghraifft codi cyllid sylweddol i dalu am ddatblygu'r pentref dysgu newydd fel ychwanegiad cyffrous at y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion yn effeithiol i ddarparu ystod helaeth o ymyriadau i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae hyder y disgyblion hyn a'u medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n llwyddiannus iawn ac nid oes llawer o wahaniaeth yn eu cyrhaeddiad a chyrhaeddiad disgyblion eraill.

O ystyried y defnydd da iawn a wna'r ysgol o'i chyllid, y cynnydd cyflym a wneir gan ddisgyblion ac ansawdd rhagorol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692121 - YSGOL Y BYNEA**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 155 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 32.2 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 11 | 15 | 16 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 45.5 | 66.7 | 81.3 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 15 | 16 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 54.5 | 66.7 | 81.3 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 9.1 | 33.3 | 25.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 15 | 16 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 63.6 | 73.3 | 81.3 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 9.1 | 26.7 | 31.3 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 15 | 16 | 20 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 63.6 | 93.3 | 81.3 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.2 | 53.3 | 37.5 | 65.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692121 - YSGOL Y BYNEA**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 155 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 32.2 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 15 | 11 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 80.0 | 81.8 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 15 | 11 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 80.0 | 81.8 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 40.0 | 27.3 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 15 | 11 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 80.0 | 81.8 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 33.3 | 54.5 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 15 | 11 | 14 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 80.0 | 81.8 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 33.3 | 45.5 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 78 | 75<br>96% | 3<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 78 | 78<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 79 | 78<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 79 | 79<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 79 | 79<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 79 | 57<br>72% | 22<br>28% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 79 | 72<br>91% | 7<br>9% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 29 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 27 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 29 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 27 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 21 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 26 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 24 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 30 | 24 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 26 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 13% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 30 | 24 | 5 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 80% | 17% | 3% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 26 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 24 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 23 | 7 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 29 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 29 | 22 | 7 | 0 | 0 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 25 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 29 | 22 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 76% | 21% | 3% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 26 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 84% | 13% | 3% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 26 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Helen Kay Lester | Arolygydd Cofnodol |
| Russell Grigg | Arolygydd Tîm |
| Terry James Davies | Arolygydd Lleyg |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tania Morgan | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.